

# CYLCHLYTHYR



RHIFYN 4, Gwanwyn 2024

## NEGES GAN REOLWR Y BWRDD



Croeso i rifyn Gwanwyn 2024 o'n Cylchlythyr Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru!

Mae wedi bod yn gyfnod prysur ar draws y rhanbarth ers ein rhifyn diwethaf a gyhoeddwyd. Fe welwch fod amrywiaeth o weithgareddau wedi digwydd, gan gynnwys Wythnos Genedlaethol Diogelu hynod lwyddiannus arall ym mis Tachwedd 2023. Mae'r rhifyn hwn hefyd yn tynnu sylw at newyddion a diweddariadau ar feysydd pwysig polisi, ymarfer a hyfforddiant diogelu, yn ogystal â newyddion ac uchafbwyntiau arfer da gan dimau a gwasanaethau o'n hasiantaethau partner ar draws y rhanbarth.

Rydym bob amser yn awyddus i hyrwyddo straeon ac enghreifftiau o'r gwaith rhagorol sy'n digwydd ar draws y rhanbarth, felly parhewch i anfon unrhyw newyddion neu wybodaeth yr hoffech i ni dynnu sylw atynt at [cysur@pembrokeshire.gov.uk](mailto:cysur@pembrokeshire.gov.uk)

Julie Breckon, Rheolwr Strategol Diogelu Rhanbarthol ar gyfer Plant ac Oedolion mewn

## YN Y RHIFYN HWN

### RHANBARTHOL

- ⇒ Llwyddiant Wythnos Genedlaethol Diogelu
- ⇒ Pecyn i'r Rhai sy'n Gadael Gofal gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys
- ⇒ Lansio Gwasanaeth Cam-drin Domestig Sir Benfro
- ⇒ Adolygiadau Newydd Cyhoeddedig Ymarfer Plant ac Oedolion
- ⇒ Digwyddiadau Rhanbarthol Recriwtio Mwy Diogel, Cyflogi Mwy Diogel
- ⇒ Powys yn tyfu eu gweithwyr cymdeithasol eu hunain
- ⇒ Dewis Choice, Adnodd Cymraeg Cam-drin Domestig ac Oedolion Hŷn - Niwed Cudd

### CENEDLAETHOL

- ⇒ Canllaw 10 Cam ar gyfer Rhannu Gwybodaeth er mwyn Diogelu Plant
- ⇒ Deall Priodas dan Orfod a Thrais ar sail Anrhydedd
- ⇒ Gwirfoddolwyr Llinell Gymorth i Bobl Ifanc Digartref Llamau
- ⇒ Diogelu Cymhleth Cymru
- ⇒ Cam-drin Rhywiol ac Ymddygiad Rhywiol rhwng Brodyr a Chwiorydd
- ⇒ Risg, Ymateb ac Adolygu: Diogelu Amlasiantaeth, Dadansoddiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru
- ⇒ Digwyddiadau Wythnos Gwaith Cymdeithasol - Gofal Cymdeithasol Cymru 2024
- ⇒ Negeseuon allweddol o ymchwil ar Ymddygiad Rhywiol Niweidiol mewn Cyd-destunau Ar-lein
- ⇒ Hwb Hyfforddiant Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed Cymru

# WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2023

Cynhaliwyd yr Wythnos Genedlaethol Diogelu eleni rhwng 13 a 19 Tachwedd 2023, gyda'r thema ranbarthol o "Diogelu mewn Cymunedau Gwledig". O dan y pennawd hwn, cynlluniwyd rhaglen a oedd â'r nod o ymateb i rai o'r heriau sy'n dod i'r amlwg mewn ardaloedd gwledig fel y rhai a geir yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Drwy gydol yr wythnos cynhaliwyd digwyddiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein, ar ffurf cynadleddau a gweminarau a oedd yn ceisio codi ymwybyddiaeth ac amlygu materion sy'n effeithio ar blant ac oedolion sy'n agored i niwed ar hyn o bryd. Cefnogwyd y rhaglen ranbarthol hefyd gan ddigwyddiadau cenedlaethol a gynhaliwyd ledled Cymru gyfan. Roedd hyn yn cynnwys lansio fframwaith safonau hyfforddiant amlasiantaeth newydd sy'n cael ei arwain gan Gofal Cymdeithasol Cymru a digwyddiad Adolygiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant a gafodd ei gynnal gan Fwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru mewn partneriaeth â Phrifysgol Metropolitan Manceinion.

**Cynhadledd Ranbarthol: Diogelu mewn Cymunedau Gwledig gyda ffocws ar Iechyd Meddwl**

Y prif ddigwyddiad yr wythnos oedd Cynhadledd ranbarthol, digwyddiad wyneb yn wyneb a gafodd ei gynnal gan Awdurdod Lleol Powys ar faes y Sioe Frenhinol, Llanfair-ym-muallt.

Roedd y cyflwyniadau yn canolbwyntio ar themâu Diogelu plant a phobl ifanc sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yng Nghymru, gwaith yr Infant and Parent Foundation a sgwrs gan Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Roedd y gweithdai yn cynnwys Cam-drin Plant yn Rhywiol -Adferiad ar draws Cwrs Bywyd, adolygiad o 'The Man Box' a diweddariad ar fentrau lles staff presennol Powys.

Nododd y cynrychiolwyr ei fod yn ddiwrnod gwych ac yn croesawu'r cyfle i gwrdd wyneb yn wyneb i rwydweithio, cymryd rhan mewn gweithdai rhyngweithiol a chwrdd â chydweithwyr newydd.



Mynychwyr y Gynhadledd Ranbarthol a gynhaliwyd gan Bowys ar faes y Sioe Frenhinol

# WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2023

Cynhaliodd Canolbarth a Gorllewin Cymru'r digwyddiadau rhanbarthol ychwanegol canlynol yn ystod yr wythnos:

Cynhaliodd Heddlu Dyfed-Powys webinar Plismona Gwrthderfysgaeth amlasiantaeth llwyddiannus iawn dan arweiniad Jane Carter, Rheolwr Prevent. Roedd y sesiwn yn cynnig amlinelliad o beth yw PREVENT, yr ideolegau sy'n dod i'r amlwg y gall pobl agored i niwed ddod i gysylltiad â nhw a beth mae Heddlu Dyfed-Powys yn ei wneud i gefnogi pobl trwy gynllun Channel.



Mynychwyr y Gynhadledd Ranbarthol a gynhaliwyd gan Bowys ar faes y Sioe Frenhinol

Cynigodd webinar Lansiad Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) amlinelliad o'r strategaeth newydd a hefyd rhannu gwybodaeth mewn perthynas â gwaith rhanbarthol ynghylch Ymyrraeth Cyflawnwyr, darpariaeth Gwasanaeth Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA), ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ranbarthol a chanfyddiadau adolygiad thematig o'n Hadolygiadau Lladdiadau Domestig rhanbarthol. Roedd y webinar hefyd yn cynnig cyfle i gynrychiolwyr glywed gan Oroeswyr, Ymarferwyr a Darparwyr a rannodd eu profiadau.



Cyflwynwyr y Gynhadledd Ranbarthol a gynhaliwyd gan Bowys ar faes y Sioe Frenhinol

Rhoddodd y webinar, 'Rheoli risg a thrawma ar ôl troseddu rhywiol ar-lein' drosolwg i'r cyfranogwyr o'r themâu a'r negeseuon allweddol a gynhwysir yn yr adnodd ymarfer newydd "Rheoli risg a thrawma ar ôl troseddu rhywiol ar-lein: Canllaw diogelu teulu cyfan". Aeth â chyfranogwyr drwy fanylion yr adnodd, i gefnogi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd gyda'r dasg anodd o asesu risg wrth ddarparu cefnogaeth emosiynol ac ymarferol.

Cafodd gweminar yn canolbwyntio ar Atal

Hunanladdiad ymhlith Pobl Ifanc, ei chynnal gan Gyngor Sir Penfro a'i chyflwyno gan PAPYRUS (Atal Hunanladdiad Ifanc). Nod hyn oedd ystyried yr agweddau, y mythau a'r stigma sy'n gysylltiedig â hunanladdiad, archwilio'r 'arwyddion' a allai ddangos bod rhywun yn meddwl am hunanladdiad a chefnogi cynllun diogelwch gyda rhywun sy'n meddwl am hunanladdiad.

Cynhaliodd Cyngor Sir Ceredigion Seminar Zoom fyw "Diogelu ein cymunedau ffermio a'u teuluoedd". Wedi'i gyflwyno gan elusen Tir Dewi, canolbwyntiodd hwn ar y risgiau sy'n wynebu ein cymunedau ffermio, a'r ffordd orau y gallwn eu cefnogi nhw a'u teuluoedd.

## Cyflwyniadau ac Adnoddau

Er mwyn ehangu cyfleoedd dysgu, creodd Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru dudalennau gwe ar gyfer digwyddiadau rhanbarthol a gynhaliwyd drwy gydol yr wythnos, a defnyddiodd y rhain i rannu cyflwyniadau siaradwyr, adnoddau hyfforddi, fideos a dolenni o'r digwyddiadau. Bydd y rhain yn parhau i fod ar gael ar ein tudalen Wythnos Genedlaethol Diogelu 2023 ar gael yn: <https://cysur.wales/national-safeguarding-week-2023/> Y bwriad yw y bydd y tudalennau hyn yn parhau i fod yn ffynhonnell arweiniad a chymorth pellach ar gyfer dysgu yn eu meysydd pwnc perthnasol.

# Canllaw 10 Cam newydd ar gyfer rhannu gwybodaeth ER MWYN diogelu plant

Mae adnodd newydd wedi'i gynhyrchu gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i sefydliadau ac ymarferwyr ei ddefnyddio fel canllaw ar rannu gwybodaeth.

Mae'r canllaw 10 cam hwn yn amlinellu ystyriaethau diogelu data allweddol wrth rannu gwybodaeth bersonol at ddibenion diogelu plant. Ei nod yw eich helpu i deimlo'n hyderus ynghylch rhannu gwybodaeth pan fydd angen i chi ddiogelu plentyn neu berson ifanc sydd mewn perygl o niwed. Mae'r canllaw wedi'i anelu at bobl sy'n ymwneud â diogelu plant: ar bob lefel, ac ym mhob sector yn y DU.



Mae rhannu gwybodaeth briodol yn ganolog i ddiogelu plant yn effeithiol rhag niwed a hyrwyddo eu llesiant. Mae adolygiadau achosion plant ac oedolion rhanbarthol yn aml yn nodi bylchau mewn rhannu gwybodaeth fel ffactor sy'n cyfrannu at fethiannau i ddiogelu'r plant dan sylw.

Gallwch ddod o hyd i'r adnodd ar-lein yn: [Canllaw 10 Cam ar gyfer rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant \(Saesneg yn unig\) | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth \(ICO\)](#)



**Sharing information could change her life.**

If you think a child is at risk, you can share information to protect them from harm. Remember to:

 **Think.**  **Check.**  **Share.**

[ico.org.uk/datasharing](https://ico.org.uk/datasharing)

## PECYN I'R RHAI SY'N GADAEL GOFAL GAN DÎM PLANT SY'N DERBYN GOFAL BWRDD IECHYD ADDYSGU POWYS

O ran plant sy'n derbyn gofal ym Mhowys a'r rhai sydd wedi'u lleoli y tu allan i Bowys, mae'r Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn ymdrechu i fod yn ddarparwyr gofal iechyd rhagorol. Maent yn gwneud hyn drwy weithio gyda nhw i godi eu dyheadau, i gyflawni eu potensial a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed drwy gydol eu taith yn ystod eu cyfnod mewn gofal.



Pecyn i'r rhai sy'n gadael gofal gan y Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal

Er mwyn annog y rhai sy'n gadael gofal i fod yn hyderus, ac i'w helpu i allu cael mynediad at iechyd, maent wedi llunio pecyn i'r rhai sy'n gadael gofal sy'n cynnwys cyfeirio at wasanaethau iechyd fel iechyd rhywiol, gwasanaethau deintyddol a gwasanaethau iechyd meddwl.

Mae'r tîm yn gwybod nad yw trosglwyddo i fod yn oedolyn bob amser yn hawdd, ac i'r rhai sy'n gadael gofal gall y trawsnewid fod yn fwy cymhleth. Maent wedi rhoi'r pecynnau hyn at ei gilydd fel bod plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cefnogi i fod yn oedolion mewn modd di-dor ac yn cael ymyriadau cynyddol a pharhaus.

Maent yn parhau i dyfu a datblygu fel gwasanaeth gyda'r plant a'r bobl ifanc sydd ar flaen y gad o ran gofal a gweledigaeth.

# ADOLYGIADAU CYHOEDDEDIG YMARFER PLANT AC OEDOLION



Prif ddiben adolygiadau ymarfer yw nodi dysgu amlasiantaethol a gwneud argymhellion i wella arferion diogelu. Gweler isod adolygiad ymarfer a gyhoeddwyd yn ddiweddar sydd ar gael ar dudalen yr Adolygiad Ymarfer Oedolion [ein gwefan](#).

## Adolygiad Ymarfer Oedolion CWMPAS 5 2018

Roedd yr adolygiad hwn yn ymwneud â menyw ifanc a oedd yn ddysgwr preswyl 22 oed a ganfuwyd wedi marw yn ei hystafell atig preswyl yn y Coleg preswyl yn Lloegr lle'r oedd hi'n byw yn ystod y tymor. Cofnodwyd achos ei marwolaeth fel 'achos o hunanladdiad'.

Gellir dod o hyd i'r adroddiad [yma](#), a bydd hefyd ar gael ar dudalen we Adolygiadau Cyhoeddedig Ymarfer Oedolion: <https://cysur.wales/adult-practice-reviews/published-adult-practice-reviews/>

# DIOGELU CYMHLETH CYMRU AR GYFER RHIENI PLANT SYDD WEDI CAEL EU HECSBLOETIO A GWEITHWYR PROFFESIYNOL SY'N GWEITHIO GYDA PHLANT A THEULUOEDD

[Mae Diogelu Cymhleth Cymru](#) yn wefan a ddatblygwyd gan ymchwilyr yn CASCADE: y Ganolfan Ymchwil a Datblygiad Plant. Mae'n seiliedig ar brosiect ymchwil a ymchwiliodd i'r ffordd yr oedd plant yn destun camfanteisio'n droseddol yng Nghymru, gan gyfeirio'n benodol at ddelio cyffuriau a'r model o gyflenwi cyffuriau ar draws llinellau cyffuriau.

Ei nod yw darparu gwybodaeth am beth yw camfanteisio troseddol ar blant, pa arwyddion i chwilio amdanynt a sut y gall rhieni gael cymorth a chefnogaeth. Mae Diogelu Cymhleth Cymru hefyd yn rhoi trosolwg i rieni o'r polisi perthnasol ar gyfer addysg, tai, yr heddlu a gwasanaethau plant a beth i wneud os bydd eich plentyn yn mynd ar goll. Mae pob adran yn gorffen gyda chanllawiau ymarferol yn seiliedig ar yr hyn a ddywedodd pobl ifanc, rhieni a gweithwyr proffesiynol wrthym.


Mae canfyddiadau'r prosiect ymchwil hefyd wedi arwain at ddatblygu pecyn cymorth camfanteisio troseddol ar blant ac offeryn asesu a gynhyrchwyd ar y cyd (ar gael ar gais). Nod yr offer hyn yw gwella ymatebion ymarferwyr a'r gymuned i gamfanteisio troseddol ar blant.

I gael rhagor o wybodaeth ac i ofyn am gopi o'r pecyn cymorth ac offeryn asesu camfanteisio troseddol plant, cysylltwch â Dr Nina Maxwell trwy e-bost yn [MaxwellN2@Cardiff.ac.uk](mailto:MaxwellN2@Cardiff.ac.uk) neu dros y ffôn ar 029 2251 0944.




## [Child criminal exploitation](#)

Find out more about child criminal exploitation.



## [Information for parents](#)

Advice for parents concerned that their children are experiencing child criminal exploitation.



## [Support services](#)

Information about support services for child criminal exploitation.

# LANCIO GWASANAETH CAM-DRIN DOMESTIG SIR BENFRO

Ym mis Rhagfyr y llynedd lansiwyd Gwasanaeth Cam-drin Domestig Sir Benfro, partneriaeth rhwng Gwasanaeth Trais Domestig Calan a Gwasanaeth Cam-drin Domestig Threshold. Dyfarnwyd y contract i'r ddau sefydliad hyn i ddarparu Cymorth Cysylltiedig â Thai Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) (Yn seiliedig ar Lety a'r Gymuned) yn ôl ym mis Medi 2023 ac ers hynny maent wedi bod yn rhoi'r seilwaith ar waith i ddarparu'r gwasanaethau hyn i'r safonau uchaf posibl.

Mae Gwasanaeth Cam-drin Domestig Sir Benfro wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl ddefnyddiwr gwasanaeth yn cael eu grymuso i arfer y dewis/rheolaeth fwyaf posibl dros eu bywydau a'r gefnogaeth y maent yn ei derbyn. Bydd y gwasanaeth sy'n seiliedig ar drawma yn cael ei arwain gan anghenion a dymuniadau dioddefwyr/goroeswyr, gan gadw diogelwch a dealltwriaeth o risg yn flaenoriaeth. Bydd y gwasanaeth yn cefnogi dioddefwyr, goroeswyr a chyflawnwyr (cymuned yn unig) gyda lefelau amrywiol o angen, gan gynnwys y rhai ag anghenion uwch a mwy cymhleth.

Bydd Gwasanaeth Cam-drin Domestig Sir Benfro, fel partneriaeth, hefyd yn darparu ystod eang o wasanaethau, rhaglenni ac ymyriadau cymorth Cam-drin a Thrais Domestig arbenigol ychwanegol a fydd yn cefnogi'r rhai sy'n cael mynediad at lety a chymorth cymunedol ymhellach.


Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol gyda dros 50 o bobl yn bresennol. Yn ystod y digwyddiad, clywodd mynychwyr gan Brif Swyddog Gweithredol Calan, Michelle Whelan, Prif Swyddog Gweithredol Threshold, Vicky Pedicini, Johanna Robinson, Cyngorydd Cenedlaethol, Joy James a Helen Goodridge o Gyngor Sir Penfro, Katie Davies, Rheolwr Rhanbarthol, Ann Williams, Rheolwr Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a Sarah Taylor, Goroeswr ac Ymgyrchydd.

Roedd y diwrnod nid yn unig yn ymwneud â lansio'r gwasanaeth newydd, ond hefyd i adeiladu sylfaen yn Sir Benfro i gydweithio â sefydliadau eraill gan sicrhau bod y bartneriaeth yn gallu darparu cylch cyfannol llawn o gefnogaeth i'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

Am fwy o wybodaeth am Wasanaeth Cam-drin Domestig Sir Benfro cliciwch yma <https://www.calandvs.org.uk/cy/two-specialist-domestic-abuse-agencies-awarded-pembrokeshire-domestic-abuse-contract/>



# DEALL PRIODAS DAN ORFOD A THRAIS AR SAIL ANRHYDEDD



Mae Bawso wedi cyhoeddi a lansio adroddiad cryno newydd sy'n canolbwyntio ar briodas dan orfod a thrais ar sail anrhydedd o fewn cymunedau Du ac Ethnig Leiafrifol (BME) yng Nghymru. Wedi'i lansio mewn digwyddiad ym Mhrifysgol De Cymru, mae'n adrodd bod 'menywod a merched mewn mwy o berygl o brofi trais domestig (DV), priodas dan orfod, yr hyn a elwir yn cam-drin ar sail anrhydedd (HBA), a mathau eraill o drais o'i gymharu â dynion ar gymhareb o un i bedwar.

Yn fyd eang, mae tua 736 miliwn o fenywod (sy'n cynrychioli 1 o bob 3 menyw a merch) yn profi trais corfforol neu rywiol yn ystod eu hoes a gyflawnir gan bartner agos (Menywod y Cenhedloedd Unedig, 2020).

Yn 2016, amcangyfrifwyd bod 15.4 miliwn o bobl yn byw mewn priodasau dan orfod, ac roedd 88% ohonynt yn fenywod a merched (Sefydliad Asia a'r Môr Tawel ar Drais ar Sail Rhywedd (APIGBV), 2017).

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar ymchwil a oedd yn ceisio cael dealltwriaeth fanwl o'r ideolegau y tu ôl i briodasau dan orfod a Thrais ar Sail Anrhydedd, i nodi unigolion y tu ôl i 'droseddu lluosog', a deall y rôl y mae diwylliant a chrefydd yn ei chael wrth gynyddu priodasau dan orfod a Thrais ar Sail Anrhydedd yn erbyn menywod.

Mae'r adroddiad cryno llawn ar gael ar wefan BAWSO: [Understanding-Forced-Marriage English-Welsh-October-2023.pdf \(bawso.org.uk\)](https://www.bawso.org.uk/Understanding-Forced-Marriage-English-Welsh-October-2023.pdf)

## ALLWCH CHI HELPU? GWIRFODDOLWYR LLINELL GYMORTH I BOBL IFANC DIGARTREF LLAMAU

Mae llinell gymorth Rhadffôn Llamau yn darparu gwybodaeth ac eiriolaeth i bobl ifanc ledled Cymru sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Ei nod yw sicrhau bod pobl ifanc yn deall eu hawliau ac yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt pan fydd ei angen arnynt. Mae hon yn rôl y gellir ei gwneud o gartref, bydd gwirfoddolwyr yn:

- ◆ **Ymateb i alwadau llinell gymorth**
- ◆ **Gwrando ar bobl ifanc mewn ffordd anfeirniadol ac empathig**
- ◆ **Darparu gwybodaeth wedi'i theilwra, cyfeirio at wasanaethau priodol a chynnig eiriolaeth pan fo hynny'n briodol**
- ◆ **Cadw cyfrinachedd bob amser tra hefyd yn ystyried materion diogelu**
- ◆ **Cofnodi gwybodaeth gywir**
- ◆ **Cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi, goruchwyllo ac adrodd yn ôl**

Am fwy o wybodaeth ewch i wefan Gwirfoddoli Cymru neu cysylltwch â Louise yn y Ganolfan Gwirfoddoli [volunteering@pavs.org.uk](mailto:volunteering@pavs.org.uk), rhif ffôn symudol 07790 809768.

# DIGWYDDIADAU RECRIWTIO MWY DIOGEL, CYFLOGI MWY DIOGEL



Disclosure &  
Barring Service



Bwrdd Partneriaeth  
Rhanbarthol  
Gorrlewin Cymru  
West Wales  
Regional Partnership  
Board

Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorrlewin Cymru a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin/Ceredigion (CAVO) yn falch o ddod â chyfres o ddigwyddiadau ar y cyd i chi i helpu i gefnogi eich mudiad i ddarparu arferion diogelu diogel ac effeithiol. Bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu cefnogi a'u darparu gan staff uwch o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, CGGC, Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorrlewin Cymru, ochr yn ochr ag arweinyddys dysgu a datblygu o Adrannau Hyfforddi Awdurdodau Lleol y rhanbarthau.

Mae'r digwyddiadau wedi'u hanelu'n bennaf at sefydliadau'r trydydd sector a'r sector annibynnol ond gellir darparu ar gyfer sefydliadau statudol yn ôl y galw.

Bydd pob digwyddiad yn para un diwrnod a bydd yn cynnwys tri gweithdy sy'n canolbwyntio ar:

- ⇒ **Arfer da mewn perthynas â Pholisïau a Gweithdrefnau Diogelu**
- ⇒ **Recriwtio Diogel a'r GDG (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd)**
- ⇒ **Safonau Hyfforddi'r Safonau Diogelu Cenedlaethol**

Bydd y digwyddiad yn cael ei ailadrodd ar draws Powys, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae pob digwyddiad yn rhad ac am ddim a bydd cinio ysgafn a lluniaeth ar gael.

I archebu lle yn eich rhanbarth, ewch i'n gwefan i ddod o hyd i'ch digwyddiad lleol ac anfonwch e-bost at eich tîm dysgu a datblygu lleol a fydd yn cadarnhau eich lle trwy e-bost.

<https://cysur.wales/training/safer-recruitment-safer-employment/>

## CAM-DRIN RHYWIOL AC YMDDYGIAD RHYWIOL RHWNG BRODYR A CHWIORYDD



Mae sawl ffurf ar gam-drin plant yn rhywiol, ond mae ymchwil yn awgrymu bod llawer iawn o gam-drin rhywiol yn cael ei wneud gan bobl sy'n hysbys i'r plentyn, gan gynnwys aelodau'r teulu.

Mae'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol wedi cynhyrchu canllaw am ddim i gefnogi gweithwyr proffesiynol yn eu dealltwriaeth o'r maes hwn. Mae'r canllaw wedi'i rannu'n ddau: Mae Rhan A yn ymdrin â nodi a deall ymddygiad rhywiol brawd neu chwaer ac mae Rhan B yn ymdrin â'r ymateb proffesiynol.

Gellir gweld copïau o'r canllaw yn Saesneg ac yn Gymraeg ar eu gwefan yn <https://www.csacentre.org.uk/research-resources/practice-resources/sibling-sexual-abuse/>



## TYFU EU GWEITHWYR CYMDEITHASOL EU HUNAIN 'RWYN' DYSGU CYMAINT'



Ym mis Mai y llynedd gwahoddwyd cydweithwyr ar draws Cyngor Sir Powys i ystyried gyrfa mewn gwaith cymdeithasol. Roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi'r cyfle i bob gweithiwr astudio ar gyfer gradd meistr, i ddechrau eu gyrfa fel gweithwyr cymdeithasol. Roedd diddordeb sylweddol, a dewiswyd dau ymgeisydd. Roedd un, Morgan Manwaring, eisoes yn gweithio yn y Gwasanaethau Plant ac roedd y llall yn gweithio ar y pryd fel cynorthwydd addysgu. Bachodd Freyja Duggan, cynorthwydd addysgu anghenion arbennig yn Ysgol Penmaes, ar y cyfle ar ôl i'r pennaeth anfon y wybodaeth at holl staff yr ysgol.

Dechreuodd Freyja yr MA mewn Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd ym mis Medi ochr yn ochr â gweithio yn y tîm Amser Teulu yn y Gwasanaethau Plant un diwrnod yr wythnos. Mae hi wrth ei bodd gyda'r cwrs a'r gwaith. Dywedodd Freyja: "Rwy'n dysgu cymaint, ac mae pawb yn hynod gefnogol."

Mae Freyja yn dilyn ôl traed dau fyfyrwr meistr blaenorol, Jess Worthington a Sam Davies a raddiodd yn llwyddiannus o Brifysgol Caerdydd ac sydd bellach yn weithwyr cymdeithasol cymwysedig mewn timau prysur yn y Gwasanaethau Plant. Maent yn ymuno â naw arall sydd wedi cael eu cefnogi gan Wasanaethau Oedolion a Phlant i gael eu graddau Gwaith Cymdeithasol eleni gan y Brifysgol Agored. Mae pawb yn cytuno bod y daith yn heriol ac yn werthfawr ond yn werth chweil yn y diwedd i ddilyn gyrfa a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

Mae gan Wasanaethau Cymdeithasol Powys raglen barhaus o gefnogi ymgeiswyr yn y Brifysgol Agored ac ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae mwy o wybodaeth ar gael gan Dîm Datblygu Ymarfer y Gwasanaethau Cymdeithasol: [practice.development@powys.gov.uk](mailto:practice.development@powys.gov.uk)

Mae eu holl weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso wedi llwyddo i gael swyddi gwaith cymdeithasol ac maent eisoes yn cyfrannu'n aruthrol at y gwasanaeth o ansawdd uchel a gynigir i bobl Powys.

## CAM-DRIN DOMESTIG AC OEDOLION HŶN - NIWED CUDD



Hidden Harms (Welsh)

Animeiddiad Niwed Cudd, bellach ar gael yn Gymraeg

Mewn partneriaeth â Dewis Choice, cynhyrchodd Bwrdd Diogelu Oedolion Norfolk yn Lloegr animeiddiad, 'Niwed Cudd', i dynnu sylw at yr heriau unigryw y mae oedolion hŷn yn eu hwynebu pan fydd cam-drin domestig yn digwydd. Mae hwn bellach wedi'i gyfieithu i'r Gymraeg i gefnogi ei ddefnydd fel adnodd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Gellir gwyllo'r animeiddiad ar YouTube gan ddefnyddio'r dolenni isod.

Cymraeg [Niwed Cudd \(Cymraeg\) \(youtube.com\)](https://www.youtube.com/watch?v=...)

Saesneg [Niwed Cudd \(Saesneg\) - YouTube](https://www.youtube.com/watch?v=...)

# RISG, YMATEB AC ADOLYGU: DIOGELU AML-ASiantaeth Dadansoddiad Thematisig o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru

Cynhelir Adolygiadau Ymarfer Plant (CPR) mewn amgylchiadau o ddigwyddiad sylweddol lle mae camdrin neu esgeuluso plentyn yn hysbys neu'n cael ei amau. Pwrpas adolygiad ymarfer plant yw creu dysgu proffesiynol a sefydliadol a hyrwyddo gwelliant mewn ymarfer amddiffyn plant rhyngasiantaethol yn y dyfodol.

Yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu eleni, rhannodd Prifysgol Met Manceinion, gyda chefnogaeth Prifysgol Lerpwl, yr adroddiad sydd newydd ei gyhoeddi a gomisiynwyd gan Fwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru: Dadansoddiad Thematisig o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru, 2023

Mae'r adroddiad yn nodi canfyddiadau adolygiad o 33 CPR rhwng 2013 a 2021. Mae'n cynnwys argymhellion i gefnogi ymarferwyr, arweinwyr a llunwyr polisi i wneud y mwyaf o weithio effeithiol ar draws yr holl asiantaethau sy'n ymwneud â phlant a theuluoedd.

Gellir lawrlwytho adroddiad briffio a chopi o'r adroddiad llawn o wefan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn [https://bwrdddiogelu.cymru/2023/10/02/risk-response-and-review-multi-agency-safeguarding/?noredirect=cy\\_GB](https://bwrdddiogelu.cymru/2023/10/02/risk-response-and-review-multi-agency-safeguarding/?noredirect=cy_GB)

## Risk, Response and Review: Multi-Agency Safeguarding

A THEMATIC ANALYSIS OF CHILD PRACTICE REVIEWS IN WALES 2023

BRIEFING REPORT  
AUGUST 2023



Report: Multi-Agency Safeguarding A Thematic Analysis of Child Practice Reviews in Wales

WYTHNOS GWAITH CYMDEITHASOL - DYDD LLUN 18 MAWRTH I DDYDD GWENER 22 MAWRTH



## Gofal Cymdeithasol Cymru Social Care Wales



Cynhelir Wythnos Gwaith Cymdeithasol o ddydd Llun 18 Mawrth i ddydd Gwener 22 Mawrth. Mae'n dod â phobl ynghyd i ddathlu gwaith cymdeithasol ac mae ar gyfer pawb sydd â diddordeb mewn gwaith cymdeithasol yng Nghymru.

Eleni, yn ystod yr wythnos, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau sy'n canolbwyntio ar gydweithio, lles a gwella meysydd ymarfer. Ddydd Mawrth 19 Mawrth byddant hefyd yn dathlu Diwrnod Gwaith Cymdeithasol y Byd trwy rannu negeseuon fideo ysbrydoledig gan arweinwyr gwaith cymdeithasol.

Mae ganddynt raglen gyffrous o ddigwyddiadau ar gyfer yr wythnos, sy'n ymdrin ag ystod o bynciau o lesiant i niwroamrywiaeth. Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnwys ADSS Cymru, BASW Cymru, Prifysgol Caerdydd a llawer o gyfranwyr eraill.

Gallwch weld beth sydd ymlaen ac archebu eich lle yn <https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/gweithwyr-cymdeithasol/wythnos-gwaith-cymdeithasol-2024>

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, e-bostiwch [iwqueries@socialcare.wales](mailto:iwqueries@socialcare.wales)

# NEGESEUON ALLWEDDOL O YMCHWIL AR 'YMDDYGIAD RHYWIOL NIWEIDIOL MEWN CYD-DESTUNAU AR-LEIN'



## Key messages from research on harmful sexual behaviour in online contexts

Sarah Brown,  
University of the Sunshine Coast and  
University of the West of England  
Jasmin Tregidga,  
Centre of expertise on child sexual abuse  
October 2023  
[www.csacentre.org.uk](http://www.csacentre.org.uk)

Report: Key messages from research on harmful sexual behaviour in online contexts

Mae'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol wedi cyhoeddi ei phapur diweddaraf, '[Key messages from research on harmful sexual behaviour in online contexts](#)'. Dyma ei hail bapur yn archwilio cam-drin rhywiol mewn cyd-destunau ar-lein ac yn dilyn y 'negeseuon allweddol o ymchwil ar gam-drin plant yn rhywiol gan oedolion mewn cyd-destunau ar-lein' a gyhoeddwyd yn flaenorol. Mae'r ddau bapur bellach yn fyw ar wefan newydd sbon y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Rhaid i ddeall cyd-destunau ac effeithiau cam-drin rhywiol ar-lein a thrwy gyfathrebu digidol fod yn rhan o'r set sgiliau i holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd yn ogystal â'r rhai sy'n cynllunio amddiffyn, diogelwch a datrysiadau. Wrth weithio gyda phlant sydd wedi niweidio'n rhywiol mewn cyd-destun ar-lein, mae angen i weithwyr proffesiynol gael dealltwriaeth fanwl o ymddygiadau ehangach y plentyn - ar-lein ac all-lein - a cheisio deall y rhesymau drostynt er mwyn ymyrryd. Gan ddwyn ynghyd yr ymchwil mwyaf diweddaraf at ei gilydd i greu trosolygon hygyrch darllenadwy, mae'r adnodd allweddol hwn wedi'i gynllunio i helpu gweithwyr proffesiynol, gan arwain ymarfer proffesiynol hyderus sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Gellir gweld yr adroddiad llawn yn y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol yn: <https://www.csacentre.org.uk/research-resources/key-messages/harmful-sexual-behaviour-in-online-contexts/>

# HWB HYFFORDDIANT ATAL HUNANLADDIAD A HUNAN

**SSHP Cymru | Training Hub**  
Suicide and Self harm Prevention



Mae'r Hwb Hyfforddiant Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed yn llwyfan i unrhyw un sy'n chwilio am gyfleoedd hyfforddi a datblygu a all eu helpu nhw, eu cymunedau, neu eu gweithluoedd, i ddatblygu eu hymwybyddiaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau mewn perthynas â rheoli ac atal hunanladdiad a hunan-niwed.

Fe'i cynlluniwyd i helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall yr hyn a ddarperir gan ystod o ddarparwyr hyfforddiant sy'n cynllunio ac yn darparu rhaglenni hyfforddi i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, ac i ddatblygu sgiliau, sy'n ymwneud â hunanladdiad a rheoli ac atal hunan-niwed.

Bydd y cwrs yn eich helpu i ddod o hyd i:

- Cyfleoedd dysgu ar-lein sydd ar gael am ddim
- rhaglenni hyfforddi a datblygu ar eich cyfer chi, eich timau a'ch cydweithwyr
- gwybodaeth pennawd i'ch helpu i ddod yn fwy cyfarwydd â'r materion sy'n ymwneud â hunanladdiad a rheoli ac atal hunan-niwed

I gael mynediad i'r wefan ewch i: <https://sshp.wales/cy/>

# DIWRNODAU YMWYBYDDIAETH SYDD AR DDOD

Isod ceir dyddiadau diwrnodau ymwybyddiaeth ar gyfer eich dyddiaduron. Cofiwch ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol i gael dolenni ac adnoddau sy'n cyd-fynd â phob un o'r diwrnodau hyn.

## Mis Mawrth

Mawrth 1	Diwrnod Ymwybyddiaeth Hunan-niwed
Mawrth 8	Diwrnod Rhyngwladol y Menywod;
17 Mawrth 2020	Wythnos Cysgu Mwy Diogel
Mawrth 13	Diwrnod Gweithredu Gofalwyr Ifanc
Mawrth 18	Diwrnod Cenedlaethol Ymwybyddiaeth Camfanteisio Rhywiol ar Blant
Mawrth 19	Diwrnod Gwaith Cymdeithasol y Byd

## Mis Ebrill

Ebrill 2	Diwrnod Awtistiaeth y Byd
----------	---------------------------

## Mis Mai

Mai 13-19	Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl
Mai 13-17	Wythnos Ymwybyddiaeth Celcio
Mai 25	Diwrnod Rhyngwladol Plant ar Goll

## EIN CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

FACEBOOK



@CYSURCYMRU

INSTAGRAM



@CYSURCYMRU

TWITTER



@CYSURCYMRU

@CWMPASCYMRU

## CYSYLLTWC HANI

E-bost:

[cysur@pembrokeshire.gov.uk](mailto:cysur@pembrokeshire.gov.uk) for CYSUR

[cwmpas@pembrokeshire.gov.uk](mailto:cwmpas@pembrokeshire.gov.uk) for CWMPAS

